





Byddwch
yn rhan o'r fferm
solar GYNTAF yng
Nghymru sy'n
eiddo i'r
gymuned!



Cynnig Cyfranddaliadau
Cymunedol
www.regengower.co.uk

Dyddiad cau:
14 Gorffennaf
2017

Goleuo'r dyfodol



FFERM KILLAN, DUNVANT ABERTAWE



Y Felin Ddŵr
Canolfan Dreftadaeth Gŵyr
Parkmill, Abertawe
y gosodiad ynni
adnewyddadwy hynaf sy'n
dal yn weithredol yn
yr ardal

Ymwadiad:

Cynnig heb ei reoleiddio yw hwn. Mae buddsoddi yn y Cynnig hwn yn cynnwys elfen o risg a dylai darpar aelodau ddarllen trwy'r ddogfen hon yn ofalus. Mae buddsoddwyr yn wynebu risg y gallent gollu peth, neu'r cyfan, o'r swm a fuddsoddir. Nid yw'r cyfranddaliadau didynadwy a gynnigir yn cael eu cynnwys yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaethau Ariannol (FSCS), ac os na fydd y gymdeithas yn gallu gwneud y taliadau'r cyfalaf neu'r taliadau llog, ni fyddwch yn gallu cyflwyno hawliad yn erbyn y cynllun.

Os bydd gennych chi unrhyw amheuan ynghylch cynnwys y ddogfen hon neu'r camau y dylech eu cymryd, fe'ch cynghorir yn gryf i holi ymgynghorydd ariannol neu ymgynghorydd proffesiynol arall.

Daw'r delweddau a ddefnyddiwyd yn y Cynnig Cyfranddaliadau hwn o amrywiaeth o ffynonellau... Diolch o galon i'r holl ffotograffwyr. Tynnwyd y llun o'r holl wirfoddolwyr a'r llysiâu organig yn Cae Tan CSA.

CYNNWYS

CROESO	4
CRYNODEB O'R CYNNIG CYFRANDDALIADAU	5
GWYBODAETH AM ADFYWIO GŴYR CYF	6
CYNNYDD HYD YMA	7
MWY NA FFERM SOLAR	8
YNNI AR HYD YR OESOEDD	10
Y CYFLE I FUDDSODDI	12
TELERAU'R CYNNIG CYFRANDDALIADAU	13
BWRDD Y CYFARWYDDWYR	15
RHAGAMCANION ARIANNOL	16
PROFFIL TALIADAU	17
RISGIAU	18
CONTRACTAU PWYSIG	19
SEFYDLIADAU ALLWEDDOL	20
FFURFLEN GAIS Y CYNNIG CYFRANDDALIADAU	21



@gowerpowercoop

Gower Power Co-op CIC

Mae dogfennau pellach ar gael ar-lein yn: www.regengower.co.uk
Cwestiynau Cyffredin - Rheolau'r Gymdeithas - Rhoi Cyfranddaliadau i Blant ac Enwebu Buddiolwyr
Cynllun Effaith Gymdeithasol - Geirfa

Cysylltwch â'r Ysgrifennydd trwy e-bostio: regen@gowerpower.coop
Neu drwy'r post yn y Swyddfa Gofrestredig: Adfywio Gŵyr Cyf., Canolfan Dreftadaeth Gŵyr, Parkmill, Abertawe, Cymru SA3 2EH

Cyfarchion !

Mae gan Abertawe gymaint i ymfalchïo ynddo. Gennym ni mae rhai o'r traethau mwyaf trawiadol, y golygfeydd harddaf a'r cymunedau mwyaf creadigol yn y Deyrnas Unedig, ac mae gwaith ar gynnydd i sbarduno arloesedd er mwyn diogelu'r hyn sydd gennym yma - a'r tu hwnt - ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Tra bod prosiect y Lagŵn Llanw yn cynnig yr orsaf bŵer gyntaf o'i bath yn y byd, mae fferm wynt 16-tyrbin yn cael ei hadeiladu ger Llangyfelach ac mae ein sir eisoes yn gartref i fwy na hanner dwsin o ffermydd solar. Mae'r cynlluniau hyn yn addo ynni glân am flynyddoedd i'r dyfodol, ac adfywio y bu hir ddisgwl amdano yn achos cymunedau a fu'n byw yng nghysgod diwydiant glo'r gorffennol.

Mae'n deimlad braf rhoi cyfle i chi ymuno â'r chwyldro ynni adnewyddadwy hwn !

Mae ynni adnewyddadwy wedi bod yn fanteisiol i'r gymuned ar benrhyn Gŵyr ers dros 900 mlynedd. Yng Nghanolfan Dreftadaeth Gŵyr, mae Ymddiriedolaeth Elusenol y Felin Ddŵr yn gofalu am Park Mill, melin ŷd sy'n dyddio o'r 12fed ganrif, ac a oedd yn defnyddio technoleg soffistigedig i harneisio grym dŵr, gan ddod yn ganolbwynt i gymuned lewyrchus o grefftwyr, entrepreneuriaid a ffermwyr. Mae Adfywio Gŵyr Cyf yn dilyn yn ôl traed cynlluniau fel y rhain, gan gynhyrchu ynni adnewyddadwy a defnyddio'r elw i gynnal amrywiaeth o brosiectau buddiol, yn ogystal â chynnig enillion gwych i fuddsoddwyr.

Mae Gower Power Co-op CIC, sy'n adnabyddus am gychwyn prosiectau eco-gefnogol, yn falch o fod yn weithredol yn fferm solar gyntaf Cymru a fydd ym mherchnogaeth y gymuned. Roedd holl gyfranddaliadau'r cynnig cymunedol diwethaf a gydlynwyd gan Gower Power wedi'u gwerthu o fewn deufis, ac rydym ni'n disgwl i hwn fod yr un mor boblogaidd, felly bachwch eich cyfranddaliadau tra gallwch chi !

Prisiwyd cyfranddaliadau Adfywio Gŵyr Cyf am £1 yr un. Gallwch fuddsoddi cyn lleied â £100 os ydych chi'n byw yn Ninas a Sir Abertawe (£300 os ydych chi'n byw y tu allan). Ein nod yw codi dros £500k a hyd at £1.085m tuag at gostau datblygu ac adeiladu, a'ch gwneud chi, y gymuned, yn berchnogion ar y fferm solar. Trwy incwm gwerthu'r trydan byddwn ni'n cynnig cyfradd llog flynyddol ragamcanol o 5% i fuddsoddwyr, yn ogystal â'r boddhad a ddaw yn sgîl cefnogi mentrau lleol cyffrous. Trwy brynu cyfranddaliadau byddwch chi'n gyd-berchennog ar gwmni ynni adnewyddadwy lleol; yn cael lleisio barn gyfartal ynghylch sut mae Adfywio Gŵyr Cyf yn gweithredu; yn ymgynghorai wrth benderfynu sut mae arian dros ben yn cael ei wario; ac yn helpu i leihau effaith newid yn yr hinsawdd.

Bydd ein Cynnig Cyfranddaliadau yn cael ei lansio ar 12 Mai ac yn dod i ben ar 14 Gorffennaf 2017. Edrychwn ymlaen at eich croesawu'n aelod o'n cymdeithas budd cymunedol, Adfywio Gŵyr Cyf.

Roy Church

Ymddiriedolwr,
Ymddiriedolaeth Elusenol
y Felin Ddŵr

Ant Flanagan

Cyfarwyddwr,
Gower Power Co-op CIC



CRYNODEB O'R CYNNIG CYFRANDDALIADAU



**Cynbig
cyfranddaliadau
NAWR YN FYW ar Ethex**
www.ethex.org.uk/GowerRegeneration

*www.gov.wales/docs/statistics/2015/150225-energy-generation-consumption-2013-en.pdf

**www.gov.uk/government/publications/greenhouse-gas-reporting-conversion-factors-2016

***£300 y tu allan i Ddinas a Sir Abertawe (£100 os yw eich côd post yn cychwyn gydag SA)

GWYBODAETH AM ADFYWIO GŴYR CYF

Cymdeithas Budd Cymunedol (7546) yw Adfywio Gŵyr Cyf, a sylfaenwyd yn 2017 gan Ymddiriedolaeth Elusennol Y Felin Ddŵr a Gower Power Co-op CIC i ariannu a rheoli fferm solar ym mherchnogaeth y gymuned ar Fferm Killan, Dyfnant, Abertawe.

Dyma'r fferm solar gyntaf yng Nghymru a fydd ym mherchnogaeth y gymuned, a bydd yn cynhyrchu trydan glân ac yn rhoi cyfle i chi fuddsoddi yn y cynllun.

Ein gobaith yw cyflawni buddion ehangach trwy ailfuddsoddi incwm mewn mentrau cymdeithasol lleol, megis Canolfan Dreftadaeth Gŵyr a phrosiect Amaeth a gefnogir gan y Gymuned Cae Tan, er mwyn creu hyfforddiant a chyflogaeth, a hefyd trwy gydweithio'n agos ag Ysgol Gynradd Pen y Fro, sy'n gymydog i ni, i harneisio'r cyfleoedd addysgol.

Mae'r fferm solar yn cynhyrchu llawer o drydan glân (1,026,983 kWh), sy'n ddigon i ddarparu ynni ar gyfer 300 o dai maint cyffredin yn Abertawe. Bydd yn cyfrannu at gyrraedd targed cyfreithiol rwymol Cymru, sef sicrhau gostyngiad o 80% ar lefelau 1990 yn yr allyriadau carbon deuocsid net erbyn 2050.* Byddwn ni, y Gymdeithas Budd Cymunedol sy'n berchen ar y fferm, yn parhau i werthu'r trydan glân hwnnw am 30 mlynedd, ac yn derbyn cymorthdaliadau am ei gynhyrchu o ffynhonnell adnewyddadwy am yr 20 mlynedd nesaf.

Rydym am wario ein hincwm ar brosiectau lleol gwych sydd â manteision cymdeithasol pellgyrhaeddol. Ond yn gyntaf mae'n rhaid i ni ad-dalu'r benthyciad gan Lywodraeth Cymru, a weinyddwyd gan Cyllid Cymru, a ddefnyddiwyd i adeiladu'r fferm. Nid 'anghenraid' yw gwerthu cyfranddaliadau i bobl sydd am fuddsoddi mewn rhywbeth moesegol, yn yr hir dymor - gallem ni'n syml ad-dalu'r benthyciad â'r incwm a gynhyrchwn - ond bydd gwneud hyn yn ein galluogi i symud yn gynt at sefyllfa lle gallwn ni gyflawni'r manteision hirhoedlog yr ydym yn gobeithio'u creu. Y rheswm am hynny yw bod telerau buddsoddi benthycwyr sefydliadol yn ddrutach na'r hyn rydym ni'n ei ystyried yn gynnig teg yr ydym ni'n ei wneud i chi, fel buddsoddwyr moesegol.

Wrth ddod â budd ariannol a chymdeithasol i'r gymuned, mae ein rhagamcanion ariannol ceidwadol yn dangos y bydd yr incwm o werthu trydan i'r grid, ac o daliadau Tystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy (ROC), yn rhyw £106,000 y flwyddyn mewn refeniw gros, ac yn codi'n unol â chwyddiant yn ystod 20 mlynedd y Tystysgrifau hynny, wrth i'w buddsoddiad gael ei ad-dalu i gyfranddaliwyr. Os bydd y cynnig cyfranddaliadau cymunedol yn llwyddiannus, rydym yn rhagweld cyllid dros ben a fydd gryn dipyn yn fwy na £550,000, a defnyddir hynny i gefnogi eco-brosiectau eraill â ffocws cymunedol, yn unol â chynllun effaith gymdeithasol (gweler t.9), a fydd yn cael ei adolygu a'i gymeradwyo gan y cyfranddaliwyr ym mhob Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol. Bydd y swm sydd ar gael yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, yn dibynnu ar ffactorau megis taliadau llog, problemau na ellid eu rhagweld, a'r tywydd.

*www.gov.wales/topics/environmentcountryside/climatechange/emissions/?lang=en

Mae'r fferm solar, a ddechreuodd gynhyrchu trydan ar 31 Mawrth 2017, yn ganlyniad 3 blynedd o ddylunio a datblygu, a bydd yn cynhyrchu trydan glân ar hyd y 30 mlynedd nesaf.

Diben y cynnig cyfranddaliadau hwn yw rhoi cyfle i chi fuddsoddi mewn creu perthynas gadarnhaol gyda'r amgylchedd ar lefel gymunedol, cael enillion teg ar eich buddsoddiad, ac ailfuddsoddi'r elw yn yr ardal leol.



CYNNYDD HYD YMA

Daeth y syniad i greu cynllun solar ym mherchnogaeth y gymuned ar Fferm Killan i'r amlwg gyntaf ym mis Gorffennaf 2014. Mae'r Prosiect wedi derbyn cefnogaeth dechnegol ac ariannol helaeth trwy Wasanaeth Ynni'r Fro Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Ynni Lleol i gynnalastudiaethau dichonoldeb, a chymeradwywyd cais cynllunio ym mis Rhagfyr 2015. Wedyn cwblhawyd astudiaethau technegol manwl pellach cyn i'r prosiect gael ei gynnig i Cyllid Cymru ar gyfer benthyciad ddiwedd 2016. Dyfarnodd Cyllid Cymru fenthyciad o £992,000 i dalu am yr holl gostau adeiladu.



**Fferm Solar
1MW**

Ar 31 Mawrth 2017 comisiynwyd yr arae solar 1 Megawatt, gan gadw at y dyddiad cau (31 Mawrth) ar gyfer y Rhwymedigaethau Ynni Adnewyddadwy: cymhorthdal a fydd yn creu dros 50% o incwm o prosiect hwn yn ystod yr 20 mlynedd nesaf.

Mae'r safle bellach yn cynhyrchu digon o drydan glân i ddarparu pŵer ar gyfer mwy na 300 o gartrefi cyffredin yn Abertawe a rhagwelir y bydd yn cynhyrchu dros £100,000 y flwyddyn. Mae'r prosiect ym meddiant y gymuned a bydd yn ailfuddsoddi ei elw mewn prosiectau newydd, gan greu cyfleoedd cyflogaeth ac addysg yng nghefn gwlad, a bydd yn amddiffyn yr amgylchedd ar gyfer y genhedlaeth hon a'r genhedlaeth nesaf.

Rydym bellach yn cynnal cynnig cyfranddaliadau cymunedol. Dyma'ch cyfle chi i fuddsoddi yn y cynllun a dod yn berchen arno. Ein bwriad yw codi dros £500,000 a hyd at £1.085m, gyda chyfradd llog flynyddol ragamcanol o 5%.

Bydd gwerthu cyfranddaliadau cymunedol yn golygu bod y fferm solar ym meddiant y gymuned, a bydd hefyd yn gwneud y defnydd gorau o'r elw, gan sicrhau bod mwy o arian yn aros yn yr ardal leol. Rydym ni'n cynnig llog hael i'n buddsoddwyr, ond byddai rhaid i ni dalu mwy fyth petaem ni'n cael benthyciad gan sefydliad sy'n rhoi arian ar fenthyc. O ddilyn y llwybr hwn, bydd mwy o arian dros ben i'w fuddsoddi er mwyn adfywio Gŵyr trwy raglenni effaith gymdeithasol y byddwn ni'n eu cyflawni. Gallai'r rhain gynnwys hyfforddiant, mentrau cyflogaeth, mwy o ffyrdd i aelodau'r gymuned fod yn berchen ar bethau ar y cyd a lleihau costau (coed tân, bwyd ac ati). Yn y pen draw bydd hyn yn adfywio'r ardal leol, a bydd byw yma'n dod yn fwy fforddiadwy a chynaliadwy, gyda mwy o elfennau'n dod o ffynonellau lleol.

Bydd denu mwy o aelodau lleol yn ein gwneud ni'n gryfach fel Cymdeithas Budd Cymunedol, fel ein bod mewn sefyllfa well i ganfod ac ymateb i anghenion lleol. Gall unigolion dros 16 oed, cyrff corfforaethol, sefydliadau gwirfoddol a buddsoddwyr sector cyhoeddus fod yn aelodau o Adfywio Gŵyr Cyf. Mae hefyd yn bosibl rhoi cyfranddaliadau'n anrheg i rai sydd o dan 16 oed, er na fydd eu haelodaeth lawn a'u pwerau pleidleisio ar gael nes eu bod nhw'n hŷn.

Bydd y Cynnig Cyfranddaliadau'n cau ar 14 Gorffennaf, cyhyd â'n bod ni wedi cyrraedd ein targed isaf, sef £500,000. Gallwn ni estyn y Cynnig os na chyrhaeddwn ni'r targed isaf erbyn y dyddiad hwnnw, ond os cyrhaeddwn ni ein targed uchaf o £1.085m cyn hynny, bydd y Cynnig yn dod i ben yn gynnar. Os na chyrhaeddwn ein targed isaf, bydd yr holl arian a dderbynnir gan Ethex yn cael ei ddychwelyd i'r buddsoddwyr.

Gall unigolion neu sefydliadau wneud cais am gyfranddaliadau ar-lein trwy Ethex yn:

www.ethex.org.uk/GowerRegeneration

Fodd bynnag, os hoffech chi ddefnyddio ffurflen gais bapur, mae un ar gael yn y ddogfen hon, ac Mae ffurflen gais ar gyfer cyfranddaliadau i unigolion a sefydliadau yn rhan o'r ddogfen hon, ac mae hefyd ar gael i'w lawrlwytho o:

www.regengower.co.uk

MWY NA FFERM SOLAR

BETH RYDYN NI WEDI'I GYFLAWNI

Hyd yma, rydym wedi cwblhau diwydrwydd dyladwy helaeth; mae amrywiaeth o gontractau yn eu lle, ac rydym wedi sicrhau benthyciad o £992,000 gan Cyllid Cymru. Defnyddiwyd yr arian hwn i adeiladu'r fferm solar 1MW, sy'n cynnwys 3568 o baneli solar. Rydym wedi ymgynghori â rhanddeiliaid lleol allweddol ac wedi dechrau datblygu Cynllun Effaith Gymdeithasol er mwyn ailfuddsoddi'r arian sydd dros ben, fel bod modd sicrhau bod yr elw a wnawn yn wir yn helpu i adfywio'r ardal leol, yn unol â'r bwriad.

Mae ein cynnig cyfrandaliadau cymunedol ar gyfer hyd at £1.085m bellach yn eich galluogi i fuddsoddi yn y cynllun a'i berchnogi, cael lleisio barn ar weithrediad ein Cymdeithas, a'n galluogi i ddarparu buddion cymunedol ehangach ar unwaith.

Y GWAITH GOSOD

Digwyddodd y gwaith gosod rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2017 ac fe'i comisiynwyd ar 31 Mawrth. Bydd y paneli'n darparu ynni adnewyddadwy ar hyd cyfnod ein Prydles ar y tir, sef 30 mlynedd.

Bydd arddangosfa addysgol yn cael ei chreu ar y safle, fel bod disgyblion, staff a rhieni o'r ysgol gynradd drws nesaf yn gallu monitro perfformiad y prosiect.

LLIFOEDD INCWM

Bydd Adfywio Gŵyr Cyf yn cynhyrchu incwm o'r canlynol:

Taliadau Tystysgrif Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy (ROC): am bob uned o drydan a gynhyrchir yn ystod cyfnod o 20 mlynedd, a rhagwelir y bydd hynny'n cyfrif am fwy na 50% o incwm y prosiect yn ystod y cyfnod hwnnw. Fel un o amodau ariannol y benthyciad rydym wedi sicrhau pris ar gyfer y Tystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy y byddwn yn eu derbyn ar gyfer y blynyddoedd cyntaf o weithredu, sef 95% o bris 'prynu-allan' yr ROC (5.20c/kWh).

Taliadau Cytundebau Prynu Pŵer (CPP) a'r buddion cysylltiedig sy'n rhan ohonynt: ar gyfer pob uned o drydan dros ben a werthir i adwerthwr ynni. Fel un o amodau ariannol y benthyciad rydym wedi sicrhau CPP 1 flwyddyn gyda Good Energy (yr amcangyfrif yw y bydd yn 4.97c/kWh gan gynnwys REGO a buddion cysylltiedig).

Ar sail y rhagamcanion cyfredol, bydd yr incwm uchod yn fwy na digon ar gyfer y canlynol:

- **cynnal a chadw'r prosiect a'i weinyddu'n barhaus -**
- **enillion blynyddol o 5% i'r buddsoddwyr -**
- **a Gweddill o fwy na £550k ar hyd oes y prosiect -**

Mae'r farchnad cyflenwi ynni yn esblygu'n gyflym iawn, felly mae Adfywio Gŵyr Cyf. hefyd yn edrych ar fodelau cyflenwi ynni lleol, gyda golwg ar werthu trydan yn uniongyrchol i ddefnyddwyr. Yn ogystal â'r posibilrwydd o alluogi defnyddwyr lleol, gan gynnwys yr ysgol leol, i brynu trydan am bris gostyngol, byddem ar yr un pryd yn cael pris gwell am bob uned o drydan na thrwy gyfanwerthu, a byddai hynny'n creu gweddill ariannol ychwanegol i'w ddefnyddio ar gyfer prosiectau budd cymunedol.

AILFUDDSODDI'R GWEDDILL

Bydd Adfywio Gŵyr Cyf. yn defnyddio'r elw y mae'n ei gynhyrchu trwy werthu trydan a thrwy gymorthdaliadau i'w fuddsoddi mewn mentrau yn yr ardal leol sy'n datblygu'r economi wledig mewn modd na fydd yn achosi niwed i genedlaethau'r dyfodol. Byddwn ni'n nodi, yn datblygu ac yn cefnogi prosiectau sydd â ffocws cymdeithasol, sy'n ecolegol sensitif, ac sy'n dathlu treftadaeth naturiol yr ardal leol. Yn unol â Rheolau ein Cymdeithas, ein haelodau fydd yn cytuno ar ddosbarthiad yr elw i gyflawni'r amcanion cymdeithasol ehangach hyn ym mhob Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.



NOD Y PROSIECT HWN YW CYFLWYNO:


Prosiect ynni adnewyddadwy amgylcheddol dderbyniol a reolir gan y gymuned leol trwy'r aelodau sy'n fuddsoddwyr cymunedol.

Bydd 'clo ar yr asedau' yn sicrhau bod yr asedau'n parhau er budd y gymuned yn fytholbarhaus.

Aelodau'r gymdeithas fydd yn parhau i reoli'r gymdeithas.

Bydd gan fuddsoddwyr bwerau pleidleisio cyfartal, beth bynnag yw maint eu buddsoddiad. Un aelod, un bleidlais.

Buddsoddir yr holl elw net yn y gymuned leol trwy ddatblygu a chyflwyno cynlluniau effaith gymdeithasol fel yr un a amlinellir isod.



GWEITHGAREDDAU

ALLBYNNAU

CANLYNIADAU

EFFAITH GYMDEITHASOL

Y pethau byddwch chi'n eu gweld yn digwydd

Yr effeithiau ar bobl leol

Y manteision sy'n parhau



Amaeth a gefnogir gan y gymuned

CAE TAN CSA

Bydd cynniig cyfranddaliadau llwyddiannus yn golygu bod modd i ni fuddsoddi mewn ehangu prosiectau fel Cae Tan CSA ar y safle. Mae Cae Tan CSA eisoes yn darparu llyisiau organig ar gyfer dros 100 o aelwydydd lleol ac mae'n chwilio am fannau newydd i dyfu bwyd ac ymgysylltu ag aelodau o'r gymuned, gan gynnwys plant ysgol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.caetancsa.org

Mae rhagor o wybodaeth am Cae Tan CSA, gan gynnwys ffilm fer, ar gael yn:

www.caetancsa.org

YNNI AR HYD YR OESOEDD

Mae safle Adfywio Gŵyr Cyf yn Fferm Killan, Dyfnant, wedi chwarae ei ran drwy ddarparu ynni ar hyd yr oesoedd i gymunedau Gŵyr a'r tu hwnt. Wrth i ni edrych ar ddyfodol y safle hwn a'i botensial i ddarparu ynni cynaliadwy, adnewyddadwy am flynyddoedd i ddod, mae'n ysbrydoliaeth cydnabod y gwahanol ffynonellau ynni o amgylch y safle, a'r defnydd hanesyddol ohonynt.



Glo roedd cloddio am lo yn digwydd gyferbyn â safle Fferm Killan tan y 1920au. Roedd glofa Dyfnant yn cyflogi 400 o bobl. Roedd pyllau hefyd ym Mhenclawdd a Morlais, yn gweithio'r un wythien. Ar draws y byd, glo yw'r brif ffynhonnell ynni ar gyfer cynhyrchu trydan o hyd, ac mae'n gyfrifol am y symiau mwyaf o garbon deuocsid y mae bodau dynol yn eu rhyddhau i'r atmosffêr. Byddwn ni'n cyfrannu at newid hynny. Yn ddiweddar, fe glywsom ni fod pŵer solar, ar Sadwrn heulog 25 Mawrth 2017, wedi cyfrannu mwy i'r Grid Cenedlaethol na gorsafoedd pŵer glo.



Ffermio yn sicr yw un o'r dulliau hynaf o gynhyrchu ynni, sef tyfu'r ynni - ar ffurf bwyd - y mae ar bob un ohonom ei angen ar gyfer y peiriant mwyaf trawiadol a soffistigedig ohonynt i gyd: y corff dynol. Wrth i bobl ddod yn fwy ymwybodol bod yr hyn rydyn ni'n ei fwyta yn allweddol, a mynnu cael cynnyrch lleol, naturiol, mae'n werth cofio bod amrywiaeth helaeth o fwyd, o Gig Oen Morfeydd Heli i wymon, ar gael yma yng Ngŵyr.



Pren - fe'i defnyddiwyd yn danwydd ers canrifoedd, ac mae ein dealltwriaeth gynyddol o'r difrod amgylcheddol a ddaw yn sgîl tanwydd ffosil fel glo wedi ailennyn ein diddordeb ynddo ar gyfer cynhyrchu ynni yn y cartref ac ar raddfa fwy. Mae llosgi pren yn rhyddhau'r un faint o garbon deuocsid ag y mae'r goeden yn ei amsugno wrth dyfu. Mae hynny'n golygu, os oes modd gwneud y prosesu a'r cludo mewn ffyrdd sy'n lleiafu'r CO₂ a gynhyrchir, y gall pren fod yn danwydd carbon-niwtral.



Dŵr yw'r ffynhonnell hynaf o ynni adnewyddadwy yng Ngŵyr. Byddai olwynion dŵr oedd â system o lafnau a bwcedi o amgylch yr ymyl allanol yn cael eu troelli gan gerrynt y dŵr oedd yn llifo, gan drosglwyddo pŵer trwy echel neu siafft ganol i'r geriau oedd yn gyrru'r peiriannau. Darparwyd pŵer fel hyn ar gyfer llawer o brosesau, gan gynnwys malu âd, gweithio tecstilau a llifo pren. Adeiladwyd yr enghraifft orau, Park Mill, tua 1170. Heddiw mae'n edrych yn debygol y bydd technolegau newydd unwaith eto yn harneisio pŵer adnewyddadwy dŵr. Pan gaiff Lagŵn Llanw Bae Abertawe ei chymeradwyo, hi fydd y gyntaf o'i bath yn y byd.



Fferm Solar

Bydd ein fferm solar yn trosgolau'r haul yn ynni - digon yn fras i gyflawni gofynion ynni rhyw 300 o dai, yn ystod 30 mlynedd ein prydles ar y tir lle mae'r paneli'n sefyll. Yn ogystal â darparu ynni glân, adnewyddadwy, a fydd yn lleihau angen y genedl am danwydd ffosil, bydd eich buddsoddiad hollbwysig yn golygu bod arian dros ben ar gael, yn fuan iawn, i'w ailfuddsoddi mewn datblygu pŵer pobl a chefnogi twf yn yr economi leol wledig.



Canolfan Dreftadaeth Gŵyr

Yn ystod ei hoes, mae Park Mill wedi bod yn ganolfanwynt pwysig i'r gymuned, ac wedi cael ei haddasu at wahanol ddefnyddiau: llifio pren ar gyfer gwaith adeiladu, malu yd i wneud bara yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Heddiw mae'r ganolfan o'i chwmpas yn cynnal mentrau, busnesau bychain a chrefftwyr. Bydd yn adnodd pwysig ar gyfer ein cymdeithas budd cymunedol, gan drawsnewid yr incwm a ddaw o werthu trydan ar ffurf y prosiectau a gynhelir yno.




Llog blynyddol o 5% ar gyfer buddsoddwyr

Amaeth a gefnogir gan y Gymuned

Mae digon o le agored ar ein safle i dyfu bwyd. Rydym ni'n bwriadu datblygu cynllun



amaethyddol a gefnogir gan y gymuned ar y safle - bydd eich buddsoddiad yn ein helpu i adeiladu ar lwyddiant 'Cae Tan CSA', prosiect partner lleol sydd eisoes yn darparu llysiau organig tymhorol ar gyfer mwy na 100 o aelwydydd.



Cyfleuster Addysgol

Bydd cyfleuster addysg ar y safle yn caniatáu i ni feithrin perthynas gyda'r ysgol ac eraill gerllaw sy'n dymuno dysgu mwy am gynaliadwydd.



Cefnogi Cyflogaeth

Byddwn ni'n datblygu cynlluniau prentisiaeth, cyfleoedd profiad gwaith, ac yn darparu cymorth i fusnesau bach dyfu, gan gryfhau rôl Canolfan Dreftadaeth Gŵyr fel meithrinfa ar gyfer syniadau a doniau lleol.



Coed Tân Cynaliadwy

Mae ein coetir ar y safle yn cynnig lluo o bosibiliadau - o bosib cydweithfa goed, fydd yn darparu tanwydd cynaliadwy, carbon-niwtral ar gyfer aelwydydd lleol, neu foeler tân coed ar gyfer yr ysgol gerllaw.



Addysg a Hyfforddiant

Mae amrywiaeth o gyrsiâu hyfforddi a gweithdai wedi cael eu cyflwyno yng Nghanolfan Dreftadaeth Gŵyr dros y blynyddoedd. Bydd ein cefnogaeth ni yn golygu bod modd ehangu hynny, a diogelu ei dyfodol fel adnodd ar gyfer dysgu am ffynonellau ynni adnewyddadwy'r gorffennol ac, o bosib, y dyfodol.

Y CYFLE I FUDDSODDI

ADENILLION AR FUDDSODDIAD AC AD-DALIADAU

Cymdeithas budd cymunedol yw Adfywio Gŵyr Cyf. Gall greu cyfalaf i gyflawni ei amcanion a bodloni ei ofynion, trwy werthu cyfranddaliadau i'r aelodau, a gall dalu llog i'r aelodau ar eu cyfranddaliadau. Mae Adfywio Gŵyr Cyf. yn rhagweld y bydd yn talu cyfradd llog flynyddol gros o 5% i'r aelodau. Bydd yr holl arian sy'n weddill ar ôl talu costau cynnal a llog yn cyfrannu at gyflawni Cynllun Effaith Gymdeithasol Adfywio Gŵyr Cyf.

Er mwyn creu'r cyfalaf sy'n ofynnol, mae Cyfranddaliadau Didynadwy yn cael eu cyflwyno, a thelir unrhyw log sy'n ddyledus gan Adfywio Gŵyr Cyf. yn flynyddol, o fewn dau fis i bob Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol. Cyfrifir y llog ar Gyfranddaliadau Didynadwy o 1af Ionawr, 2018. Dyddiad targed pob CCB fydd mis Ionawr, a thelir unrhyw daliadau sy'n ddyledus i'r aelodau cyn diwedd y flynyddyn dreth. Mae croeso i'r aelodau gyfrannu rhan neu'r cyfan o'u taliadau llog blynnyddol rhagamcanol o 5% i'r Cynllun Effaith Gymdeithasol, os dymunant wneud hynny. Mae Adfywio Gŵyr Cyf yn bwriadu ad-dalu cyfran o gyfalaf yr aelodau bob 6 mis yn ystod 20 mlynedd cyntaf y prosiect, er y gall yr ad-daliadau cyfalaf amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

CLOI ASEDAU

Os daw Adfywio Gŵyr Cyf i ben, defnyddir ei asedau yn gyntaf i gyflawni ei rwymedigaethau; nesaf i ad-dalu'r aelodau am eu cyfranddaliadau; yn olaf, bydd unrhyw arian sy'n weddill yn cael ei drosglwyddo i elusen, cymdeithas neu gorff arall ag asedau dan glo sy'n gwasanaethu'r gymuned. Os bydd aelod yn marw, gall eu cynrychiolydd personol wneud cais am ddiwynu cyfalaf y cyfranddaliadau. Bydd dychwelyd cyfalaf cyfranddaliadau yn y sefyllfa hon yn cael blaenoriaeth gan y Bwrdd dros ben dychwelyd cyfalaf aelodau eraill.

RHOI CYFRANDDALIADAU'N RHODD / PRYNU CYFRANDDALIADAU I BLANT NEU WYRION / ENWEBU BUDDIOLWYR

Fel buddsoddiad tymor hwy ar draws y cenedlaethau, gallwch fuddsoddi yn Adfywio Gŵyr Cyf. nawr ar gyfer eich plant a'ch wyrion; neu gallwch fuddsoddi ar eich rhan eich hun yn awr, a rhoi eich buddsoddiad i'ch plant a'ch wyrion neu fuddiolwyr eraill yn eich ewyllys. Telir y llog a enillir i'r buddiolwr a enwir adeg cofrestru'r cyfranddaliadau. Bydd cyfalaf yn cael ei ad-dalu i'r un cyfrif yn awtomatig. Bydd angen i chi roi gwybod i ni os hoffech chi i ni ei ad-dalu i gyfrif gwahanol. DS wrth roi cyfranddaliadau i rywun o dan 16 oed, bydd rhaid i'r rhoddwr gadw hawliau pleidleisio'r cyfranddaliadau hynny nes bod y derbynydd yn cyrraedd 16 oed, a dim ond un set o hawliau pleidleisio y gall pob cyfranddaliwr unigol ei defnyddio.

Mae ffurflen gais ar wahân a rhagor o wybodaeth ynghylch rhoi cyfranddaliadau i blant ac enwebu buddiolwyr ar gael yn:

www.regengower.co.uk

GWERTHU NEU DDIDYNNU CYFRANDDALIADAU

Ni chaniateir trosglwyddo Cyfranddaliadau Didynadwy yn Adfywio Gŵyr Cyf. ond yn sgîl marwolaeth neu fethdaliad; ni ellir eu gwerthu i drydydd parti na'u masnachu. Ni ragwelir y bydd y Cyfranddaliadau Didynadwy yn werth mwy na'u gwerth enwol o £1. O dan amgylchiadau eithriadol, os bydd y gymdeithas o dan straen ariannol, gallai gwerth y Cyfranddaliadau Didynadwy ostwng.

Mae modd didynnu cyfranddaliadau ddwy flynedd wedi dyddiad eu cyflwyno, ar ôl rhoi tri mis o rybudd. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi mai yn ôl disgrisiwn y Cyfarwyddwyr y bydd unrhyw ddiwyniad yn digwydd, a hefyd yn amodol ar argaeledd cyllid digonol. Mae gan Fwrdd Adfywio Gŵyr Cyf. hawl i newid y cyfnod o rybudd neu atal didyniadau. Ni fydd Adfywio Gŵyr Cyf. yn talu mwy nag y talwyd am y Cyfranddaliadau Didynadwy i'r Aelodau. Wrth brynu cyfranddaliadau i rai o dan 16 oed, sylwer na fydd modd gofyn am ddiwynu'r cyfranddaliadau nes bod yr aelod yn cyrraedd 16 oed.

Yn gyffredinol bydd Cyfarwyddwyr y Gymdeithas yn rhoi blaenoriaeth i ad-dalu Cyfranddaliadau Didynadwy ar sail dyddiad derbyn y cais yn gofyn am ad-daliad. Fodd bynnag, yn achos marwolaeth aelod, rhoddir blaenoriaeth i gais ffurfiol am ad-dalu Cyfranddaliadau Didynadwy gan gynrychiolydd ystâd yr aelod a benodwyd yn gyfreithiol.

Hefyd, er y bydd rhai aelodau o bosibl yn dymuno didynnu eu Cyfranddaliadau, bydd eraill am ychwanegu at eu daliad. Mae Bwrdd Adfywio Gŵyr Cyf yn ymroddedig i helpu gyda hyn.

GWYBODAETH BELLACH

Bydd rhagor o wybodaeth, gan gynnwys unrhyw ddiweddariadau, ar gael yn:

www.regengower.co.uk

www.ethex.org.uk/GowerRegeneration

I gael rhagor o fanylion am y broses o wneud cais, cysylltwch ag Ethex:

help@ethex.org.uk / 01865 403304

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynghylch telerau'r Cynnig, cysylltwch ag Ysgrifennydd y Cwmni yn:

regen@gowerpower.coop



TELERAU'R CYNNIG CYFRANDDALIADAU

AMSERLEN


Caiff y cynnig ei lansio ar 12 Mai 2017 a daw i ben am ganol dydd ar 14 Gorffennaf 2017, oni bai bod y cyfan wedi'i neilltuo'n gynharach neu ei fod yn cael ei estyn yn ôl disgrisiwn y Bwrdd yn unig.



Cynnig yn
AGOR



Cynnig yn
CAU



TELERAU ALLWEDDOL

Dyma delerau allweddol y cynnig:

CYFLWYNIR Y CYFRANDDALIADAU GAN:

Adfywio Gŵyr Cyf.
(Cymdeithas Budd Cymunedol gofrestredig rhif 7546)

NIFER Y CYFRANDDALIADAU A GYFLWYNIR:

550,000 - 1,085,000

GWERTH CYFRANDDALIADAU:

Gwerth enwol o £1 y cyfranddaliad.

ISAFSWM TANYSGRIFIAD:

£550,000.

UCHAFSWM TANYSGRIFIAD:

£1,085,000.

ROI YR AELODAU:

Adenillion blynyddol rhagamcanol y buddsoddiad fydd 5% (oni bai bod yr aelodau'n dewis cyfrannu eu taliadau llog blynyddol i Gronfa Effaith Gymunedol Adfywio Gŵyr Cyf.)

ISAFSWM BUDDSODDIAD:

£300 (300 o gyfranddaliadau). Bydd isafswm buddsoddiad is o £100 (100 cyfranddaliad) yn berthnasol i fuddsoddwyr sy'n byw yn Ninas a Sir Abertawe

UCHAFSWM BUDDSODDIAD :

£100,000.

DOSBARTH Y CYFRANDDALIADAU:

Didynadwy - gall buddsoddwyr ddidynnu eu cyfalaf cyfranddaliadau wedi cyfnod o ddwy flynedd o ddyddiad cyflwyno'r cyfranddaliadau, yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd ac argaeledd cyllid.

TROSGLWYDDADWYEDD:

Nid yw cyfranddaliadau o dan y Cynnig hwn yn drosglwyddadwy i drydydd partion.

TYMOR:

Buddsoddiad tymor hir - er y telir llog yn flynyddol, gall ad-dalu'r cyfalaf gymryd hyd at 20 mlynedd.

TANYSGRIFIO GORMODOL:

Os bydd tanysgrifio gormodol, gall y Bwrdd wahodd ymgeiswyr sy'n byw y tu allan i Ddinas a Sir Abertawe leihau nifer y cyfranddaliadau y maent wedi gwneud cais amdanynt, er mwyn i fwy o bobl leol fedru tanysgrifio. Y cyntaf i'r felin fydd hi yn achos unrhyw ailddyrrannu sy'n digwydd yn y cyfranddaliadau sydd ar gael.

HAWLIAU PLEIDLEISIO:

Un aelod, un bleidlais.

AMODAU'R CYNNIG

Mae'r Cynnig yn amodol ar y canlynol:

- Bod y Tanystrigiad Isaf wedi'i gyflawni cyn neu erbyn 12 ganol dydd, ddydd Gwener 14 Gorffennaf 2017 (neu ddyddiad estyn y Cynnig, yn ôl disgrisiwn y Bwrdd yn unig) -
- Cadarnhad gan Ofgem bod y prosiect wedi cael ei gofrestru'n llwyddiannus ar gyfer Tystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy (dyddiad targed 1af Gorffennaf) -
- Bod Adfywio Gŵyr Cyf yn cychwyn ar Contract Gweithrediadau a Rheolaeth (dyddiad targed 1af Mehefin) -

Bydd y cyllid a gynhyrchir trwy'r Cynnig hwn yn cael ei gadw gan Ethex, yr Asiant Derbyn. Ni fydd yn cael ei ryddhau i Adfywio Gŵyr Cyfnes bod yr Asiant Derbyn wedi cael tystiolaeth ynghylch bodloni'r tair amod uchod.

Y PETHAU Y GALL AELODAU EU HAWLIO

- ennill llog ar eich cyfranddaliadau, gyda chyfradd llog darged o 5% (gros) y flwyddyn, yn cychwyn o 1af Ionawr 2017 -
- didynnu peth neu'r cyfan o'ch cyfalaf cyfranddaliadau, yn unol â thelerau ac amodau -
- derbyn copïau o'r cyfrifon blyneddol, adroddiadau a hysbysiadau ynghylch cyfarfodydd -
- galw am gyfarfod cyffredinol gyda chefnogaeth yr aelodau eraill -
- mynychu cyfarfodydd cyffredinol o'r holl aelodau, siarad ynddynt, a chyflwyno penderfyniadau yno -
- sefyll i gael eich ethol i Fwrdd Adfywio Gŵyr Cyf. -
- pleidleisio yn etholiadau aelodau'r Bwrdd a phenderfyniadau pwysig eraill, gan gynnwys newid rheolau -
- archwilio cofrestr aelodau a swyddogion Adfywio Gŵyr Cyf -
- cysylltu ag aelodau eraill a swyddogion ynghylch materion sy'n ymwneud â'r gymdeithas -
- ymddiswyddo fel aelodr -
- aelodau hefyd fydd y bobl gyntaf i gael gwahoddiad i ymuno â mentrau pellach ar yr un safle, er enghraifft, cydweithfeydd amaeth a thanwydd pren a gefnogir gan y gymuned -



Un aelod,
un bleidlais



BWRDD Y CYFARWYDDWYR

Roy Church



Mae Roy yn byw yng Ngŵyr ac yn un o Ymddiriedolwyr Canolfan Dreftadaeth Gŵyr - atyniad lleol ac i ymwelwyr ym mhentref Parkmill yng nghanol Penrhyn Gŵyr - calon y Ganolfan yw Melin Ddŵr o'r 12fed ganrif, a gellid honni mai dyma brosiect ynni adnewyddadwy cyntaf Gŵyr, gan fod pŵer dŵr wedi cael ei ddefnyddio ar y safle ers dros 900 mlynedd i ddarparu ynni ar gyfer sawl crefft a gweithgaredd gwledig gwahanol. Roy aeth ati i sefydlu Ymddiriedolaeth Elusenol i adfer Adeiladau'r Felin a chreu canolbwynt llewyrchus ar gyfer gweithgareddau cefn gwlad. Cyfreithiwr cymwysedig yw Roy, yn arbenigo mewn eiddo masnachol, ac mae wedi gweithio i gwmnïau cyfreithiol yng Nghymru a Llundain ar amrywiaeth o wahanol brosiectau masnachol ac eraill. Astudiodd Roy ym Mhrifysgol Aberystwyth, a bu ganddo ddiddordeb byw erioed mewn hanes a diwylliant lleol. Mae hefyd yn un o Ymddiriedolwyr Canolfan Barham (Ymddiriedolaeth mewn pentref lleol sy'n darparu TG ac adnoddau eraill i'r Gymuned Leol) a hefyd Ganolfan Calon Lân.

Ant Flanagan



Mae gan Ant MBA o Ysgol Fusnes Caerdydd ac mae wedi bod yn datblygu a rheoli mentrau cymdeithasol ers 2001. Bu'n ymwneud ac yn ymddiddori ers meitin mewn Buddsoddiadau Cadarnhaol. Mae'n gyfarwyddwr ar fentrau cymdeithasol niferus, gan gynnwys Gower Power Co-op CIC, Cae Tan CSA a CYMCA, a chydlynodd gynnig cyfranddaliadau cymunedol yr olaf, lle cafwyd tanysgrifiadau gormodol, ddiwedd 2016. Mae'n aelod o Fwrdd Gweithredol Fforwm Amgylcheddol Abertawe ac yn is-gadeirydd ar Grŵp Gweithredu Lleol Abertawe sy'n helpu i gyflawni Cynllun Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru. Mae'n credu'n angerddol ym mhwysigrwydd cefnogi cynhyrchwyr a chyflenwyr lleol, ac mae am feithrin mwy o berchnogaeth gymunedol ar asedau lleol.

NODYN:

Mae Bwrdd Cyfarwyddwyr Adfywio Gŵyr Cyf. yn cynnwys aelodau sylfaenu a gweithwyr proffesiynol sy'n derbyn cyfrifoldeb am sicrhau bod y prosiect yn cael ei adeiladu a'i gwblhau'n ariannol yn brydlon. Fel Cymdeithas Budd Cymunedol a chwmni cydweithredol, bydd Aelodau'r Bwrdd yn y dyfodol yn cael eu hethol yn ddemocrataidd gan y cyfranddaliwyr yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol. Ar ben hynny, mae'r Bwrdd presennol yn bwriadu cyfethol rhanddeiliaid lleol allweddol i'r Bwrdd wedi'r cwblhau ariannol. Yn unol â Rheolau'r Gymdeithas gall y Bwrdd gynnwys hyd at 30% o bobl nad ydynt yn fuddsoddwyr, cyhyd â bod ganddynt brofiad proffesiynol addas neu eu bod yn gyfranddaliwyr allweddol yn y Gymdeithas. Bydd rhagor o randdeiliaid lleol yn cael eu cyfethol i'r Bwrdd ar ôl i'r Cynng Cyfranddaliadau gael ei gwblhau.

GWRTHDARO BUDD:


Mae Roy Church yn un o ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth y Felin Ddŵr; ef yw rheolwr Canolfan Dreftadaeth Gŵyr; mae'n gyd-berchennog ar Dunvant SBG Ltd, sef perchennog y tir sydd ar brydles; mae wedi gwneud peth o'r gwaith cyfreithiol i Adfywio Gŵyr Cyf a hefyd i Dunvant SBG Ltd. Mae Ant Flanagan a Chris Small fel ei gilydd yn gyfarwyddwyr ar Gower Power Co-op CIC; mae Ant Flanagan hefyd yn gyflogai. Mae Gower Power wedi cyflwyno anfoneb am gyfanswm o £42,062 am ei ymwneud â phob cyfnod yn natblygiad y prosiect, o'r cychwyn cyntaf yn 2014, ac o'r swm hwnnw, talwyd am £10,502 trwy grantiau, y bydd £7250 yn cael ei dalu adeg cyflawniad ariannol.

Helen Grey



Mae gan Helen BSc yng Ngwyddor yr Amgylchedd a phrofiad helaeth o ddatblygu a rheoli prosiectau ym meysydd adfywio cymunedol a gwledig, cynaliadwydd amgylcheddol a chadwraeth natur. Ar hyn o bryd mae Helen yn gweithio i Gyngor Abertawe yn swyddog rhaglenni sy'n cyflawni rolau allweddol yng nghynllun Partneriaeth Tirwedd Gŵyr a Rhaglen Datblygu Gwledig Abertawe. Mae hi hefyd yn gyfarwyddwr ar Cae Tan CSA, prosiect amaeth yng Ngŵyr a gefnogir gan y gymuned leol, lle datblygir cyfleoedd ar gyfer garddwriaeth ar y safle gyda'r ysgol gymdogol. Mae Helen hefyd yn mwynhau chwarae rhan ymarferol mewn prosiectau, a gellir cael hyd iddi'n gosod perthi neu'n helpu i drin y cnydau yn Cae Tan CSA.

Chris Small



Chris yw un o Gyfarwyddwyr Sylfaenu Cynllun Ynni a Menter Cymunedol Abertawe (CYMCA) y bu'n ei feithrin i lwyddo ar hyd ei ddatblygiad. Mae hefyd yn gyfarwyddwr ar Gower Power Co-op CIC. Mae gan Chris MSc mewn Ymgynghoriad Amgylcheddol ac yn ddiweddar gadawodd rôl Swyddog Datblygu Cynaliadwy yng Nghyngor Abertawe i ddatblygu ei yrfa fel Arbenigwr ar Rwydweithiau Gwres yn yr Adran Ynni Busnes a Strategaeth Ddiwydiannol (DECC gynt). Mae Chris hefyd yn un o Ymddiriedolwyr Canolfan yr Amgylchedd yn Abertawe. Mae Chris yn mwynhau teithio, cadw'n heini a rhedeg marathonau.

Ruth Evans



Cyfrifydd siartredig yw Ruth Evans ac mae ganddi radd anrhydedd dosbarth cyntaf mewn Mathemateg o Brifysgol Abertawe. Hyfforddodd gyda KPMG yng Nghaerdydd a bu'n gweithio i gleientiaid archwilio oedd yn cynnwys TSB General Insurance cyn gadael i weithio ym myd diwydiant. Bu Ruth yn gyfrifydd rheoli i Biomet UK ac yn rheolwr ariannol yn Dawn Pac. Yn dilyn egwyl gyrfa estynedig i dreulio amser gyda phlant ifanc, mae Ruth bellach yn hunangyflogedig ac yn darparu gwasanaethau cyfrifyddol i Gower Power, Cae Tan ac Ysgol Fforest. Mae hefyd yn gweithio i Feithrinfa Coeden Fach. Ei hoff weithgaredd y tu allan i'r gwaith yw mynd â'r ci am dro a mwynhau harddwch naturiol Gŵyr.

RHAGAMCANION ARIANNOL

Isod ceir crynodeb o lif arian ôl-gomisiynu'r gymdeithas yn ystod oes 30 mlynedd y prosiect. Mae'n rhagdybio y codir y swm llawn o £1.05m trwy'r Cynnig.

CRYNODEB O'R RHAGAMCANION LLIF ARIAN ÔL-GOMISIYNU AR SAIL P90

	5 mlynedd hyd at 31 Rhag 22	5 mlynedd hyd at 31 Rhag 27	5 mlynedd hyd at 31 Rhag 32	5 mlynedd hyd at 31 Rhag 37	5 mlynedd hyd at 31 Rhag 42	5 mlynedd hyd at 31 Rhag 47	CYFANSWM
Incwm Gweithredu - gwerthu trydan a Chynlluniau RhYA	£619,450	£601,041	£657,214	£667,636	£384,082	£361,709	£3,291,132
Costau Gweithredu	-£113,528	-£114,191	-£159,310	-£190,770	-£215,839	-£209,816	-£1,003,455
Llif arian sydd ar gael ar gyfer ariannu ac Effaith Gymdeithasol	£505,922	£486,849	£497,904	£476,866	£168,244	£151,893	£2,287,677
Taliadau llog yr aelodau	-£247,242	-£194,515	-£127,221	-£41,459			-£610,437
Ad-daliadau cyfalaf yr aelodau	-£190,846	-£243,573	-£310,867	-£337,939			-£1,083,224
Cronfa Effaith Gymdeithasol (cyn trethiant)	-£27,188	-£62,658	-£59,816	-£97,468	-£168,244	-£151,893	-£567,266

Mae'r crynodeb uchod yn defnyddio perfformiad gwarantedig p90 (h.y. rhagorir ar y cynnyrch a ragwelir 90% o'r amser) yn sail ar gyfer y ffigurau cynhyrchu incwm. Y rhesymeg ar gyfer hyn yw y bydd y ffigurau cynhyrchu'n rhagori ar y disgwyl mewn llawer mwy o flynyddoedd na'r rhai lle maent yn methu â chyrraedd y targed, ac mae hynny'n rhoi hyder i ni y gallwn gadw at ein hymrwymiad i'r cyfranddalwyr.

Mae'r rhagamcanion ariannol isod yn rhai p50 (rhagorir ar y cynnyrch a ragwelir 50% o'r amser). At ddibenion diwydrwydd dyladwy ariannol gyda Cyllid Cymru ac er mwyn cyfrifo'r cynnig taliadau llog i'r aelodau defnyddiwyd y ffigurau P90. Fodd bynnag, mae'n eitha tebygol y bydd y prosiect yn cyflawni'n llawer gwell na hyn, fel y dangosir isod.

CRYNODEB O'R RHAGAMCANION INCWM A CHRONFA EFFAITH GYMDEITHASOL ÔL-GOMISIYNU AR SAIL P50

	5 mlynedd hyd at 31 Rhag 22	5 mlynedd hyd at 31 Rhag 27	5 mlynedd hyd at 31 Rhag 32	5 mlynedd hyd at 31 Rhag 37	5 mlynedd hyd at 31 Rhag 42	5 mlynedd hyd at 31 Rhag 47	CYFANSWM
Incwm gweithredu - gwerthu trydan a chynlluniau RhYA	£675,340	£655,270	£716,511	£727,873	£418,736	£394,344	£3,588,073
Llif arian sydd ar gael ar gyfer ariannu ac Effaith Gymdeithasol	£561,812	£541,078	£557,201	£537,103	£202,897	£184,528	£2,584,618
Cronfa Effaith Gymdeithasol (cyn trethiant)	-£83,077	-£116,887	-£119,113	-£157,706	-£202,897	-£184,528	-£864,207

NODIADAU:

Seiliwyd y rhagamcanion ar nifer o ragdybiaethau, ac nid oes gwarant y cyflawnir y rhagamcanion hyn. Bydd yr incwm yn deillio o werthu trydan sy'n cael ei allforio yn ogystal â thaliadau trwy'r cynllun Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy a nifer o Fuddion Cysylltiedig. Y costau yw taliadau rheoli gweithredu a chynnal, yswiriant, rhent, darpariaethau atgyweirio (e.e. ar gyfer gwrthdroyddion), gweinyddiaeth Adfywio Gŵyr Cyf. (e.e. rheoli cyfrifon a chyfranddalwyr) a chostau dadgomisiynu. Achredwyd y prosiect yn llwyddiannus ar gyfer RhYA gydag Ofgem erbyn 31 Mawrth 2017 ac mae wedi sicrhau RhYA o 5.20c/kWh am y flwyddyn gyntaf o weithredu, sy'n cyfrif am 51% o'r incwm rhagamcanol yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu; sicrhawyd y CPP o ryw 4.97c/kWh trwy gcontract 1 flwyddyn gyda Good Energy (mae'r pris wedi'i seilio ar amcangyfrif o bris crynswth am bŵer a buddion cysylltiedig a ddarperir gan Good Energy). Mae pecynnau ailgyllo amgen yn cael eu harchwilio rhag ofn na cheir tanystrigrifad llawn i'r Cynnig. Ar sail ein trafodaethau presennol gyda benthycwyr, ni ddigwyllir y byddai telerau pecyn ailgyllo'n niweidiol i'r gyfradd llog a delid i'r aelodau, ond fwy na thebyg byddai swm is ar gael i gyflawn effaith gymdeithasol ehangach.

RHAGDYBIAETHAU:

Y canlynol yw'r rhagdybiaethau allweddol sy'n darparu sail ar gyfer y rhagamcanion hyn:
Cyfanswm costau'r prosiect fydd £1,050,000 gan gynnwys: datblygiad (na thalwyd amdano drwy grantiau), cyfreithiol, adeiladu, costau trefnu'r benthyciad, codi arian a chostau wrth gefn;
Bydd y gymdeithas yn llwyddo i godi'r uchafswm o ran ecwiti ariannol;
Cwblhawyd y gwaith o adeiladu'r cynllun solar erbyn diwedd Mawrth 2017, a datryswyd unrhyw faterion oedd yn peri rhwystr erbyn 1 Mai 2017;
Bydd y cynllun solar yn cynhyrchu 1,026,983 kWh yn ei flwyddyn lawn gyntaf o weithredu, yn unol â'r rhagfynegiadau P90;
Bydd diraddiad perfformiad y paneli solar yn 0.68% y flwyddyn, yn unol â gwarantau'r cynnyrch;
Bydd y cytundeb prynu pŵer yn codi'n unol â disgwyliadau chwyddiant;
Bydd y gyfradd a dderbynnir am y Tystysgrifau RhYA yn codi'n unol â disgwyliadau chwyddiant o'r gyfradd gychwynnol a sicrhawyd ar gyfer y flwyddyn gyntaf o weithredu;
Chwyddiant blyneddol o 2.5% yn achos prisiau adwerthu a thrydan.

PROFFIL AD-DALIADAU CYFALAF A THALIADAU LLOG YR AELODAU

Yn ein rhagamcanion rydym wedi modelu ad-dalu cyfalaf yr aelodau mewn rhandaliadau 5 mlynedd yn ystod 20 mlynedd cyntaf y prosiect, sef y cyfnod pryd bydd y prosiect yn gymwys ar gyfer system gynnal Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy y llywodraeth. Rydym yn bwriadu ad-dalu cyfalaf yr aelodau fel a ganlyn:

	Blynyddoedd 0-5	Blynyddoedd 6-10	Blynyddoedd 11-15	Blynyddoedd 16-20
Ad-daliadau cyfalaf bob 5 mlynedd, fel %	18%	22%	29%	31%
Ad-daliadau cyfalaf os byddwch chi'n buddsoddi £10,000	£1,800	£2,200	£2,900	£3,100

“Rydym ni’n rhagweld y bydd y fferm solar yn cynhyrchu gweddill ariannol o fwy na £550k yn ystod oes y prosiect.”

*Ant Flanagan,
Sylfaenydd Adfywio Gŵyr Cyf
ac Aelod o'r Bwrdd*

Mae gan y gymdeithas budd cymunedol hawl i ad-dalu eu cyfalaf i'r aelodau yn rhannol neu'n llawn os bydd y Bwrdd o'r farn y byddai hynny er budd i'r gymdeithas. Gall aelodau wneud cais am ddiwyddu eu cyfalaf, ond bydd caniatáu hynny yn dibynnu ar a oes digon o arian wrth gefn ar gael. Yn nodweddiadol, gellir galluogi hyn os bydd aelodau eraill yn cynnig cynyddu eu cyfranddaliadau. Mae'r Gymdeithas yn ymroddedig i hwyluso'r broses hon.

Bydd llog blynyddol yr aelodau, y disgwylir iddo fod yn 5%, yn dechrau cronni o 1 Ionawr 2018 ac enillir llog ar y cyfalaf mae pob aelod yn ei gadw yn y prosiect bob blwyddyn. Os bydd y taliadau llog, am ba reswm bynnag, yn gostwng un flwyddyn, byddwn ni'n gwneud popeth o fewn ein gallu i ymdrin â hynny a chadw'r ddysgl yn wastad yn ystod y blynyddoedd sy'n dilyn, er mai mater i ddisgresiwn y Bwrdd, yn y pen draw, yw a oes modd talu'r llog.

Er mwyn medru cyflawni cynifer o fuddion cymdeithasol cyn gynted â phosibl, mae modd i chi, fel aelod, ddewis peidio â derbyn eich taliadau llog am unrhyw gyfnod penodol. Bydd taliad llog y dewiswch beidio â'i dderbyn yn mynd i'r Gronfa Effaith Gymdeithasol. Cewch gyfarwyddiadau ynghylch hyn ar adeg cofrestru eich cyfranddaliadau.

CRONFEYDD EFFAITH GYMDEITHASOL

Bydd y Bwrdd yn ymgynghori â'r aelodau a rhanddeiliaid eraill allweddol ynghylch beth i'w wneud ag elw'r gymdeithas bob blwyddyn, ac yn dylunio, yn cyflawni ac yn adrodd ar sail cynllun effaith gymdeithasol. Mae rhagor o fanylion ynghylch hynny ar gael i'w lawrlwytho o:

www.regengower.co.uk

Fel y gwelir yn y rhagamcanion ariannol gyferbyn, rhagwelir y bydd y cyllid sydd ar gael yn cynyddu'n sylweddol dros amser wrth i gyfalaf yr aelodau gael ei ad-dalu.



RISGIAU

Mae risg ynghlwm wrth fuddsoddi yn y Cynnig hwn, a dylai darpar aelodau ddarllen y ddogfen hon yn ofalus. Os bydd gennych unrhyw amheuan ynghylch cynnwys y ddogfen neu'r camau y dylech eu cymryd, fe'ch cynghorir yn gryf i holi ymgynghorydd ariannol neu ymgynghorydd proffesiynol arall.

Ym marn y Bwrdd, dyma'r ffactorau risg allweddol:

Gan mai cwmni newydd yw Adfywio Gŵyr Cyf, nid oes hanes iddo cyn y prosiect hwn. Mae gan y cyfarwyddwyr perthnasol brofiad masnachol a chyfreithiol helaeth o gynnal mentrau cymdeithasol llwyddiannus, gan gynnwys sicrhau cyllid, ac maent wedi llunio contractau â chontractwyr sy'n amlwg gymwys i adeiladu'r fferm solar, yn ogystal â cheisio cyngor technegol wrth gaffael y contract gweithrediadau a chynnal a chadw.

ADEILADU: Trefnodd Adfywio Gŵyr Cyf gontract adeiladu 'cyflawn' er mwyn cyfyngu ar risgiau costau adeiladu annisgwyl. Mae'r Gymdeithas wedi dethol ei phartner adeiladu, Lark Energy, yn ofalus, gan roi sylw i'w profiad a'u hanes o gyflawni prosiectau ar raddfa debyg, lle cadwyd at derfynau amser tynn. Er i'r safle ddechrau cynhyrchu ynni ar 31 Mawrth, gellir disgwyl y bydd gwaith adfer/rhwystrau yn parhau yn ystod y Cynnig. Rydym wedi neilltuo swm priodol wrth gefn ar gyfer amgylchiadau annisgwyl, gan gynnwys caniatáu ar gyfer unrhyw oedi neu amser segur posibl yn y tri mis cyntaf o weithredu. Bydd ein cyfarwyddwyr technegol hefyd yn sicrhau bod yr offer wedi'i osod i'r safon gywir i sicrhau'r perfformiad gwarantedig.

GWEITHREDU: Mae prosesau mecanyddol ac electronig ynghlwm wrth gynhyrchu trydan, ac o dan rai amodau gallant fethu, gan arwain at golli incwm a chostau atgyweirio neu amnewid. I leihau'r risg hon, mae'r Gymdeithas wedi defnyddio paneli Haen 1 sydd â gwarant perfformiad 20 mlynedd ar gymhareb ddiddoraddd gwarantedig (0.68%) a gwrthdroyddion sydd â gwarant estynedig o 10 mlynedd. Bydd y Gymdeithas yn gwneud gwaith cynnal a chadw ataliol yn rheolaidd trwy gontract O&M a oedd yn dal i gael ei drefnu'n derfynol adeg lansiô'r cynnig cyfranddaliadau, er bod cyllideb geidwadol ar ei gyfer yn ein rhagamcanion. Rydym wedi trefnu yswiriant rhag i fethiant offer pwysig amharu ar y busnes.

HYLIFEDD: Ni fwriedir i'r aelodau fedru didynnu unrhyw gyfalaf am ddwy flynedd o leiaf. Ni fydd modd didynnu cyfranddaliadau ond os bydd y cwmni'n cynhyrchu gweddill ariannol digonol, neu os bydd aelodau eraill am brynu rhagor o gyfranddaliadau. Mater i ddisgresiwn y Bwrdd fydd unrhyw ddidyniad. Y bwriad yw bod buddsoddi yn Adfywio Gŵyr Cyf yn fuddsoddiad hir dymor, ac er y bydd y cyfalaf yn cael ei ad-dalu'n gynyddrannol, dylai'r aelodau fod yn barod i gadw eu buddsoddiad am 20 mlynedd cyntaf y prosiect. Petai'r aelodau'n tynnu eu cyfranddaliadau yn ôl a bod y Gymdeithas yn ymddatod, gallai credydwy'r hawlio gwerth y cyfranddaliadau hynny a dynnwyd yn ôl gan yr aelodau am hyd at flwyddyn wedi iddynt gael eu tynnu'n ôl.

CYNHYRCHU: Seiliwyd rhagdybiaethau'r Gymdeithas ynghylch lefelau cynhyrchu ynni adnewyddadwy posibl ar ffigurau a ddarparwyd gan Lark Energy yn y contract EPC (capasiti gosod o 999 kWp, fyddai'n cynhyrchu 1,026,983 kWh yn y flwyddyn gyntaf). Os bydd unrhyw amrywiant ar hyn, dyfarnir iawndal penodedig, oni bai bod amrywiant i'r contract wedi'i dderbyn trwy'r gyllideb wrth gefn a ddyrannwyd.

PRISIAU TRYDAN: Mae prisiau cyfanwerthu trydan yn amrywio, a bydd hynny'n cael effaith ar brisiau gwerthu'r trydan y mae'r Gymdeithas yn ei allforio, ac felly ar y referniw. Nid oes gwarant ychwaith y bydd y Gymdeithas yn sicrhau cytundeb prynu pŵer

boddhaol y tu hwnt i'r contract blwyddyn gyntaf a lofnodwyd gyda Good Energy. Serch hynny, mae rhagolygon Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn awgrymu mai codi fydd tuedd gyffredinol prisiau cyfanwerthu trydan yn y tymor hir. Mae'r Cytundeb Prynu Pŵer (CPP) yn cynnwys pris sefydlog yr uned am drydan ac amcan o'r buddion cysylltiedig ychwanegol sy'n deillio o'r trydan sy'n cael ei allforio i'r rhwydwaith trydan lleol gan y fferm solar. Seiliwyd pris y CPP a ddefnyddiwyd wrth fodlu ar amcan o'r pris crynswth am bŵer a buddion cysylltiedig a ddarparwyd gan Good Energy; gall y buddion cysylltiedig ostwng. Mae'r cyfarwyddwyr yn ymroddedig i sicrhau'r pris gorau posibl am y trydan a gynhyrchir yn flynyddol, gan gynnwys ymchwilio i opsiynau model cyflenwi lleol.

ACHREDIAD RHWYMEDIGAETH YNNI ADNEWYDDADWY:

Adeg y lansiô, nid yw Adfywio Gŵyr Cyf. wedi derbyn tystiolaeth ynghylch achrediad Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy (RhYA). Gellir sicrhau darpar aelodau na fydd eu buddsoddiad yn cael ei gyrchu o Ethex nes bod Adfywio Gŵyr Cyf. wedi derbyn cadarnhad llawn ynghylch achrediad llwyddiannus. Os na sicheir achrediad, gall buddsoddwyr fod yn dawel eu meddwl y bydd Ethex yn dychwelyd yr holl arian.

TYSTYSGRIFAU RHWYMEDIGAETH YNNI ADNEWYDDADWY:

Cynhyrchir dros 50% o'r incwm a ragwelir i'r Gymdeithas o Dystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, system gynhaliath o eiddo'r llywodraeth. Cyflwynir Tystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy i weithredwyr gorsafoedd cynhyrchu ynni adnewyddadwy achrededig am y trydan adnewyddadwy cymwys y maent yn ei gynhyrchu. Dyfarnir 1.2 o Dystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy i'r fferm solar am bob MWh o drydan a gynhyrchir. Mae rhwymedigaeth ar gyflenwyr i brynu nifer penodol o Dystysgrifau bob blwyddyn, neu dalu pris "prynu-allan" y Tystysgrifau hynny (ROC). Gall gweithredwyr fasnachu'r Tystysgrifau â phartion eraill, ac yn y pen draw, fe'u defnyddir gan gyflenwyr i ddangos eu bod wedi cyflawni eu rhwymedigaeth. Cyflwynir Gorchymyn Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy bob blwyddyn yn manylu ar lefel y rhwymedigaeth ar gyflenwyr a'r pris 'prynu-allan'. Oddi mewn i'n modelu, rhagdybiwyd y bydd pris y Tystysgrifau a sicrhawyd ar gyfer y flwyddyn gyntaf (95% o bris 'prynu-allan' y ROC) yn codi'n unol â chwyddiant.

AILGYLLIDO: Mae'r rhagamcanion llif arian a ddarparwyd yn dangos Adfywio Gŵyr Cyf. yn llwyddo i ailgyllido 100% o'r benthyciad adeiladu gan Cyllid Cymru trwy'r cynnig cyfranddaliadau. Yr Isafswm Tanysgrifio yw'r isafswm o ran cyfalaf y mae angen i ni ei godi i fedru ailgyllido unrhyw swm sy'n weddill o'r benthyciad adeiladu. Seiliwyd y rhagdybiaeth hon ar sgyrsiau a gawsom gyda nifer o fenthycwyr. Os bydd y costau ailgyllido'n uwch na'r amcangyfrif, bydd hynny'n cael effaith niweidiol ar faint o arian sydd ar gael ar gyfer y Gronfa Effaith Gymdeithasol, neu yn y sefyllfa waethaf, yn lleihau'r taliadau i aelodau yn ystod y blynyddoedd cyntaf. Os bydd hynny'n digwydd, nod y Gymdeithas fydd sicrhau bod taliadau'r blynyddoedd diweddarach yn cael eu cynyddu i wneud iawn am y gostyngiad hwn.

POLISIÂU YNNI'R DEYRNAS UNEDIG : Gallai newidiadau i'r ddeddfwriaeth o ran y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy gael effaith negyddol ar referniw ac elw'r Gymdeithas. Mae'r RhYA yn cael ei hadolygu'n rheolaidd, er bod holl Lywodraethau'r Deyrnas Unedig hyd yma wedi osgoi newidiadau sy'n cael effaith ôl-weithredol ar bolisi trwy fabwysiadu hen reolau ar gyfer prosiectau gweithredol. Hynny yw, ar ôl cael ei hachredu gan Ofgem, bydd y RhYA yn parhau yn ei lle am y cyfnod llawn o 20 mlynedd.

STRATEGAETH YMADAEL: Rydym wedi cyllidebu ar gyfer dadgomisiynu'r gosodiad. Rhagwelir y bydd cyfalaf yr Aelodau'n cael ei ad-dalu o fewn yr 20 mlynedd cyntaf (hyd y Brydles yw 30 mlynedd).

CONTRACTAU PWYSIG

Sicrhawyd pob caniatâd cynllunio angenrheidiol, prydles ar gyfer y safle a chytundebau cysylltiad â'r grid i adeiladu a gweithredu gosodiad solar ar y safle arfaethedig.

PRYDLES

Cyn y gwaith gosod, trefnodd Adfywio Gŵyr Cyf brydles 30 mlynedd gyda'r Landlord. Roedd hynny'n golygu bod modd gwneud y gwaith gosod, a bydd yn caniatáu ar gyfer cynnal a chadw'r paneli'n barhaus yn ystod oes y prosiect. Mae disgwyl i gyfanswm y taliad rhent blyneddol cytunedig, sef £3,750, godi'n unol â'r mynegai prisiau adwerthu ddiwedd bob blwyddyn. Mae'r ddogfen wedi cael ei selio'n swyddogol a'i chofrestru gyda'r Gofrestrfa Tir.

CONTRACT PEIRIANNEG, CAFFAEL AC ADEILADU (EPC)

Mae'r contract hwn yn cwmpasu dylunio, cyflenwad, profi'r gosodiad, comisiynu'r prosiect, cysylltu ag Ofgen i sicrhau achrediad RhYA, ac mae rhwng Lark Energy ac Adfywio Gŵyr Cyf. Mae'r contract yn darparu ar gyfer cymhareb perfformiad gwarantedig o 82% ar gyfer yr arae solar, asesiad o effaith colledion yn y system ar allbwn cyffredinol y system, yn amodol ar ddiraddiad blyneddol o 0.5%.

Os bydd y gymhareb berfformiad yn gostwng o dan y lefel warranted hon yn ystod y 12 mis cyntaf o weithredu, bydd rhwymedigaeth ar Lark i dalu iawndal i Adfywio Gŵyr Cyf am y gostyngiad yn incwm y prosiect yn ystod ei oes weithredol.



Cyfanswm costau'r prosiect £1.085m

CONTRACT GWEITHREDIADAU A CHYNNAL A CHADW (O&M)

Mae Adfywio Gŵyr Cyf yn gweithio gyda Juno i sicrhau contractiwr O&M trwy ymarferiad marchnad agored. Mae disgwyl i'r contract hwn fod yn ei le erbyn 1af Mehefin. Bydd angen i'r Contract O&M gynnwys gwaith cynnal a chadw ataliol yn unol ag amserlen gytunedig. Bydd hynny'n cynnwys monitro'r system o bell, 7 niwrnod yr wythnos, yn ogystal ag ymweliadau safle rheolaidd a phroffion swyddogaeth blyneddol ar gydrannau'r system.

Bydd Cyllid Cymru yn adolygu'r contract O&M cyn rhyddhau taliad cyfnod terfynol y benthyciad adeiladu, a ddefnyddir i dalu am y costau adeiladu sy'n dal yn ddyledus. Mae trefnu'r contract O&M yn un o amodau derbyn gweddill arian benthyciad Llywodraeth Cymru a'r Cynnig hwn.

CYTUNDEB PRYNU PŴER (CPP)

Mae'r CPP yn sicrhau pris am werthu'r trydan a gynhyrchir. Mae'r CPP yn cynnwys pris sefydlog yr uned am drydan ac amcan o'r buddion cysylltiedig ychwanegol a fydd yn codi wrth i'r fferm solar allforio trydan i'r rhwydwaith trydan lleol. Seiliwyd pris y CPP a ddefnyddiwyd wrth fodelu ar amcan o bris crynswth am bŵer a buddion cysylltiedig a ddarperir gan Good Energy. Fel un o amodau'r cyllid gan Cyllid Cymru, mae Adfywio Gŵyr Cyf wedi trefnu CPP 1 flwyddyn gyda Good Energy.

DATBLYGU'R PROSIECT, RHEOLI CBS A CHONTRACTAU GWEINYDDOL

Trefnwyd Cytundeb Rheoli Prosiect gyda Juno Energy: Mae hyn yn cynnwys cyngor technegol, caniatâd, iechyd a diogelwch, goruchwyllo gwaith adeiladu, profi tystion a throsglwyddo'r safle.

Trefnwyd Cytundeb Rheoli Prosiect gyda Gower Power Co-op CIC. Mae hyn yn cynnwys dichonolrwydd, strwythuro corfforaethol, ymgysylltu â benthycwyr ac ecwiti, marchnata, a gwasanaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol wrth symud ymlaen.

Cynnig
cyfranddaliadau
NAWR YN FYW ar Ethex

www.ethex.org.uk/GowerRegeneration

SEFYDLIADAU ALLWEDDO



Adfywio Gŵyr Cyf - enw blaenorol y busnes oedd Killan Solar CIC, oedd yn berchen ar Hawliau'r Prosiect cyn iddo droi o fod yn gwmni budd cymunedol i fod yn gymdeithas budd cymunedol (dan yr enw newydd, Adfywio Gŵyr Cyf). Roedd angen iddo newid yn gymdeithas budd cymunedol i fedru cynnig cyfranddaliadau cymunedol.

www.regengower.co.uk



Ymddiriedolaeth Y Felin Ddŵr yw'r ymddiriedolaeth elusennol a oedd yn berchen ar Killan Solar CIC cyn iddo droi'n gymdeithas budd cymunedol. Mae Y Felin Ddŵr bellach yn Aelod Sylfaenu o Adfywio Gŵyr Cyf. a hefyd yn berchen ar Ganolfan Dreftadaeth Gŵyr, sef atyniad lleol i dwristiaid a chanolfan adnoddau gwledig sy'n cynnal dwsinau o grefftŵyr, masnachwyr, artistiaid a cherddorion.

www.gowerheritagecentre.co.uk



Gower Power Co-op CIC yw un o Aelodau Sylfaenu Adfywio Gŵyr Cyf. Mae Gower Power Co-op CIC wedi ymwneud ag astudiaethau dichonolrwydd, strwythuro masnachol, cynllunio busnes, rheoli prosiect, sicrhau cyllid, ymgysylltu â rhanddeiliaid, datblygu a chynnal y cynnig cyfranddaliadau cymunedol hwn.

www.gowerpower.coop



Juno Energy ymgynghorydd technegol yw Juno, sydd wedi ymwneud ag astudiaethau dichonolrwydd, cynllunio a chaniatâd o'r cychwyn cyntaf, ac sy'n gyfrifol am reoli prosiect y contract EPC a lechyd a Diogelwch. www.junoenergy.co.uk



Lark Energy sy'n darparu'r contract EPC. Mae Lark Energy yn ddarparwr arobryn ar gynlluniau ynni masnachol a graddfa cyfleustodau sy'n cwmparu amrywiaeth eang o ynni adnewyddadwy - yn arbennig solar PV a biomas, yn ogystal â ffynonellau ynni confensiynol.

www.larkenergy.co.uk



Ethex llwyfan buddsoddi nid-er-elw ar y we yw Ethex, a'i ddiben yw sicrhau bod 'buddsoddi cadarnhaol yn hawdd ei ddeall ac yn hawdd ei gyflawni', a bydd yn gweithredu fel Asiant Derbyn ar gyfer y Cynnig. www.ethex.org.uk



Ynni Lleol Llywodraeth Cymru cynllun yw hwn sy'n darparu cefnogaeth ariannol a thechnegol i helpu mentrau cymdeithasol a Mentrau BaCh ledled Cymru i ddatblygu eu cynlluniau ynni adnewyddadwy eu hunain. Mae'n cael ei ddarparu gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni (Energy Saving Trust), ac mae cyllid y benthyciad yn cael ei weinyddu gan Cyllid Cymru. Mae wedi darparu cymorth technegol, grantiau a benthyciadau i helpu i ddatblygu'r prosiect.

www.localenergy.gov.wales



Cyllid Cymru sy'n darparu cyllid buddsoddi ar gyfer mentrau bach a chanolig yng Nghymru. Mae'n gweinyddu cyllid benthyciadau cynllun Ynni Lleol Llywodraeth Cymru a darparodd fenthyciad o £992,000 ar gyfer Adfywio Gŵyr Cyf.

www.financewales.co.uk



Cae Tan CSA fydd yn arwain datblygiadau Amaeth a efnogir gan y Gymuned ar y safle.

www.caetanca.org

Diolch o galon hefyd i'r canlynol:



Cronfa Banc Cymunedol Robert Owen a ddarparodd fenthyciad ar adeg hanfodol yn natblygiad y prosiect.



Canolfan Cydweithredol Cymru a fu'n helpu gyda dogfen y Cynnig Cyfranddaliadau Cymunedol. Ariannwyd eu cymorth trwy Gronfa'r Loteri Fawr.



John Morse a wnaeth waith trawsgludo a Burges Salmon am amrywiol ddarnau o gyngor cyfreithiol.



Ariannwyd yr ymchwil ar gyfer y cynllun hwn yn rhannol gan Leader - Cronfa Datblygu Gwledig Amaethyddol Ewrop - trwy Lywodraeth Cymru



GWYRDD a wnaeth y gwaith dylunio creadigol, a ariannwyd trwy Adfywio Cymru.



Trosiadau Twt am waith cyfieithu twt dros ben !

Byddai'n well gennym petaech yn gwneud cais am gyfranddaliadau ar-lein yn: www.ethex.org.uk/GowerRegeneration
Fodd bynnag, os yw'n well gennych gyflwyno ffurflen gais bapur **GOFYNNIR I CHI LENWI DWY DUDALEN Y CAIS AM Y CYNNIG YFRANDDALIADAU MEWN INC DU A PHRIFLYTHRENNAU**. Os hoffech chi enwebu rhywun i dderbyn cyfranddaliadau adeg eich marwolaeth, neu os ydych chi'n gwneud cais ar ran plant, gofynnir i chi lawrlwytho'r ffurflen gais ychwanegol sydd ar gael o: www.regengower.co.uk



BUDDSODDIAD

Rwyf fi/Mae fy sefydliad yn dymuno buddsoddi cyfanswm o £ yn Adfywio Gŵyr Cyf ar sail Telerau ac Amodau'r Ddogfen Gynnig hon, am bris o £1 y cyfranddaliad. Sylwer bod rhaid i chi fuddsoddi o leiaf £100 os ydych chi'n byw yn Ninas a Sir Abertawe (côd post yn cychwyn gydag SA) a £300 os ydych chi'n byw tu allan.

ENW'R YMGEISYDD

ENW CYNTAF

CYFENW

**Llenwch y blychau sydd â seren dim ond os ydych yn cyflwyno cais ar ran sefydliad. Os ydych yn cyflwyno cais ar ran sefydliad, nodwch gyfeiriad y sefydliad a manylion cyswllt addas isod.*

*ENW A RHIF COFRESTRU'R SEFYDLIAD:

NEU AMH

CYFEIRIAD:

CÔD POST:

CYFEIRIAD: (rhowch eich cyfeiriad blaenorol hefyd os buoch chi'n byw yn y cyfeiriad hwn am lai na 3 blynedd)

CÔD POST:

DYDDIAD GENI: DD / MM / BBBB

CENEDL:

RHIF FFÔN :

E-BOST:

*ENW'R LLOFNODYDD AWDURDODEDIG:

Sut clywsoch chi am Adfywio Gŵyr Cyf ?

MANYLION TALU

☐ Rwy'n cadarnhau fy mod wedi talu trwy drosglwyddiad banc/BACS ar:

DATE: DD / MM / BBBB

i Ethex Investment Club Ltd a hefyd fy mod i'n cytuno i'r telerau a'r amodau a geir yn y ddogfen cynnig cyfranddaliadau hon.
(Mae Ethex Investment Club yn derbyn taliadau ar ran adfywio Gŵyr Cyf mewn cyfrif cleient ar wahân)

Talwch i'r:

Côd Didoli 60-83-01 Rhif Cyfrif 20358868

Wrth wneud taliad ar-lein cofiwch gynnwys enw cyfeirnod, sef eich CYFENW a'ch DYDDIAD GENI (e.e. JONES160472)

☐ Rwy'n cadarnhau fy mod wedi amgáu siec a wnaed yn daladwy i Ethex Investment Club Ltd a hefyd fy mod i'n cytuno i'r telerau a'r amodau a geir yn y ddogfen cynnig cyfranddaliadau hon.

RWY'N CADARNHAU FY MOD YN DEALL Y CANLYNOL: :

Pan dderbynnir ef gan Adfywio Gŵyr Cyf., bydd y Cais hwn yn ffurfio contract sy'n ddarostyngedig i gyfraith Cymru a Lloegr ar Delerau'r Cynnig yn Nogfen y Cynnig.

Mae Ymgeisydd nad yw'n preswyllo yn y Deyrnas Unedig yn gyfrifol am sicrhau bod y Cais hwn yn cydymffurfio ag unrhyw gyfreithiau neu reoliadau sy'n berthnasol y tu allan i'r Deyrnas Unedig y mae ef/hi yn ddarostyngedig iddynt, ac y bydd angen i mi ddarparu manylion cyfrif banc yn y Deyrnas Unedig.

Os ceir tanysgrifiadau gormodol i'r Cynnig, mae'n bosibl na fydd Cais a fyddai fel arall yn gymwys yn cael ei dderbyn yn rhannol neu'n llwyr.



RWY'N CADARNHAU:

Fy mod wedi darllen Dogfen y Cynnig (gan gynnwys y Ffactorau Risg a'r Nodiadau Cyfarwyddyd ar gyfer y Ffurflen Gais hon) a Rheolau Adfywio Gŵyr Cyf.

Fy mod dros 16 a bod yr Ymgeisydd yn bodloni meini prawf cymhwyster y Cynnig.

Bod Adfywio Gŵyr Cyf. wedi'i awdurdodi gyda hyn i wneud pa ymholiadau bynnag y bernir eu bod yn angenrheidiol i gadarnhau cymhwyster y Cais hwn.

Nad yw'r Ymgeisydd (oni bai ei fod yn Gymdeithas Gofrestredig) yn gwneud cais na cheisiadau lluosog am gyfanswm o fwy na 100,000 o Gyfranddaliadau (ac mae hynny'n cynnwys cyfanswm cronol unrhyw gyfranddaliadau y gwnaed cais amdanynt i blant yn enw'r Ymgeisydd).

Nad yw'r Ymgeisydd yn dibynnu ar unrhyw wybodaeth na sylwadau mewn perthynas â Chyfranddaliadau'r Cynnig yn Adfywio Gŵyr Cyf nad ydynt wedi'u cynnwys yn Nogfen y Cynnig.

Bod rhaid i'r Ymgeisydd ddarparu'r holl wybodaeth a dogfennau ychwanegol y gofynnir amdanynt gan Adfywio Gŵyr Cyf yng nghyswllt y Cais hwn, gan gynnwys yng nghyswllt rheoliadau gwyngalchu arian, trethiant neu reoliadau eraill.

GOFYNNIR I CHI NODI Y DYLECH FOD, CYN LLENWI'R DDOGFEN HON, WEDI GWNEUD Y CANLYNOL:

Darllen y Ddogfen Cynnig Cyfranddaliadau hon -

Ystyried Telerau'r Cynnig a'r Risgiau fel y'u nodwyd yn y Ddogfen hon -

Ystyried a oes angen i chi dderbyn unrhyw gyngor ariannol yng nghyswllt Telerau'r Cynnig -

DS Bydd y data a roddwch ar y ffurflen gais hon yn cael ei storio mewn cronfa ddata gyfrifiadurol, gan yr Asiant Derbyn Ethex a'r gweinyddwyr Gower Power Co-op CIC.

Ni ddefnyddir eich gwybodaeth ond at ddibenion Adfywio Gŵyr Cyf ac Ethex ac ni fydd yn cael ei datgelu i unrhyw ryddyd parti.

Os hoffech chi dderbyn newyddion achlysurol gan Gower Power Co-op CIC ynghylch prosiectau eraill, ticiwch yma: ☐

Rwy'n deall y bydd y siec sy'n cefnogi'r cais hwn (os yw wedi'i hamgáu) yn cael ei chyflwyno i'w thalu adeg ei derbyn, ac rwy'n gwarantu y caiff ei thalu y tro cyntaf y caiff ei chyflwyno.

*DYDDIAD Y LLOFNOD:

*DATE: DD / MM / BBBB

*Os ydych yn gwneud cais ar ran sefydliad, rhaid i'r llofnodwr awdurdodedig lofnodi yma.

AR ÔL EI GWBLHAU, ANFONWCH EICH CAIS AT:

Ethex, The Old Music Hall, 106-108 Cowley Road, Oxford, OX4 1JE

Dylid gwneud sieciau'n daladwy i 'Ethex Investment Club Ltd'